VAUGHAN, ARTHUR OWEN ('Owen Rhoscomyl '; 1863? - 1919), anturwr ac awdur

Enw: Arthur Owen Vaughan
Ffugenw: Owen Rhoscomyl
Dyddiad geni: 1863?
Dyddiad marw: 1919
Priod: Catherine Lois Vaughan (née de Geere)
Rhiant: Jane Ann Mills
Rhiant: Robert Mills
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: anturwr ac awdur
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Teithio
Awdur: William Llewelyn Davies

Enw mabwysiedig oedd hwn - ei enw bedydd oedd Robert Scourfield, mab Robert Mills a Jane Ann, merch Joseph Scourfield. Ganwyd yn Southport, 6 Medi 1863. Claddwyd ei dad o fewn mis wedyn. Symudodd y fam i Fanceinion a phriodi eilwaith. Bu'r ail r, Luke Etchells farw yn 1869. Magwyd y bachgen gan ei nain a oedd yn wreiddiol o Dre-meirchion. Owen oedd ei henw hi arno. Ef ei hun a fabwysiadodd yr enw Arthur Owen Vaughan a llunio'r ffugenw ' Owen Rhoscomyl ' allan o Rho[bert] Sco[urfield] Myl[ne] gan ddefnyddio'r ffurf Saesneg Canol am Mill.

Dihangodd i'r môr yn fachgen (o Borthmadog), a chrwydrodd y byd. Yn Rhyfel De Affrig yr oedd ganddo lu o w r meirch, y 14th Northumberland Fusiliers,' ac enillodd gryn glod; ac yn rhyfel 1914-9 enillodd radd cyrnol, a'r D.S.O.

Yr oedd yn awdur pedair nofel: *The Jewel of Ynys Galon* (1895), *Battlement and Tower* (1896), *The White Rose of Arno* (1897.) a *Old Fireproof* (1906), a chyda'r arglwydd Howard de Walden ysgrifennodd ddrama, *The Children of Don*, 1912. Cyhoeddodd hefyd yn 1905 *Flame bearers of Welsh History*, ac yn 1913 lyfr mwy uchelgeisiol, *The Matter of Wales*, ond ni chafodd y naill na'r llall dderbyniad da o gwbl gan arbenigwyr yn hanes cynnar Cymru.

Priododd Catherine Lois (Katherine Louisa) de Geere ar lan yr afon Vaal tua 21 Rhagfyr 1900. Collodd y dystysgrif briodas pan gymerwyd ef i ysbyty. Bu hi farw ym Mhenarth yn 1927. Bu ef farw 15 Hydref 1919 mewn ysbyty preifat yn Llundain, yn 56 oed yn ôl *Western Mail*, 20 Hydref 1919. Fe'i claddwyd ym mynwent Maeshyfryd, Ffordd Diserth, Y Rhyl.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

The Times, 17 Hydref 1919

Western Mail, 16 a 20 Hydref 1919

Rhyl Journal, 25 Hydref 1919

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

Archifau LlGC: NLW MSS 2504-2505D: Sir Edward Anwyl MSS: Letters 1885x1914

Gwybodaeth gan ei ferch

Darllen Pellach

Hywel Teifi Edwards, *I godi'r hen wlad yn ei hôl, 1850-1914* (Llandysul 1989), 246-50

Hel Achau, 34 (1991)

John S. Ellis, *Owen Rhoscomyl* (University of Wales Press 2016)

John S. Ellis, Making Owen Rhoscomyl (1863-1919): biography, Welsh identity and the British world, *Cylchgrawn Hanes Cymru*, Cyf. 26, rhif. 3 (Hydref 2013), tt. 482-511

The late Owen Rhoscomyl: Interment at Rhyl, *North Wales Chronicle*, 24 Hydref 1919, t.5

BBC cymrufyw: Owen Rhoscomyl: Cowboi, milwr, hanesydd, Cymro

Erthygl Wicipedia: Arthur Owen Vaughan

Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: Arthur Owen Vaughan (Owen Rhoscomyl) Papers

VIAF: 38296620

Wikidata: Q4799891

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu